# DAVID, PHILIP (1709 - 1787), gweinidog gyda'r Annibynwyr ym Mhenmain, sir Fynwy;

**Enw:** Philip David
**Dyddiad geni:** 1709
**Dyddiad marw:** 1787
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 11 Mehefin 1709, yng Nghwm Ebwy Fawr. Tueddwyd ef at grefydd tua 1720 gan bregethu James Davies o Ferthyr Tydfil; dechreuodd bregethu ei hunan yn 1732; ac yn 1739 urddwyd ef yn weinidog cynorthwyol i David Williams (a fu yno o 1710 hyd ei farwolaeth yn 1759) ym Mhenmain. Bu yno hyd ei farwolaeth 3 Chwefror 1787. Tua 100 oedd rhif yr eglwys ar hyd ei weinidogaeth. Gŵr ceidwadol a chrabet oedd Philip David, ac y mae ei ddyddiaduron (anghyhoedd) yn ddrych hynod ddiddorol o ragfarn hen 'Sentar sych' yn erbyn y dulliau Methodistaidd a oedd yn ennill y dydd ymysg yr Annibynwyr Cymreig erbyn diwedd ei ddyddiau ef. Nai iddo ef oedd Philip Charles o Gefn-coed-cymer.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i, 26-8

*Y Dysgedydd*, Mai 1934

*Y Cofiadur*, 1935, 37

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734149

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Jenkins, R. T., (1953). DAVID, PHILIP (1709 - 1787), gweinidog gyda'r Annibynwyr ym Mhenmain, sir Fynwy;. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Medi 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-PHI-1709

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government